Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Henllan
# Ffordd Dinbych
# Henllan
# Dinbych
# Sir Ddinbych
# LL16 5AW

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/04/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Henllan wedi'i lleoli ym mhentref Henllan sydd ar gyrion tref Dinbych yn Sir Ddinbych. Mae 60 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys 9 o blant meithrin rhan-amser. Maent wedi'u trefnu'n bedwar dosbarth oed cymysg.

Ychydig iawn o'r disgyblion sydd o gartrefi lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae gan ychydig dros chwarter o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn uwch na'r ganran genedlaethol. Mae tua 16.6% y disgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim, sydd llawer is na'r ganran genedlaethol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Henllan yn 2014-2015 yw £5,543. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Ddinbych yw £9,103 a'r lleiafswm yw £2,902. Mae Ysgol Henllan yn y 9fed safle o'r 47 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2013.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym Mai 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- Safonau llythrennedd a rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda
- Y rhan fwyaf o ddisgybl yn gwneud cynnydd da yn Gymraeg
- Disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach
- Cyfraddau presenoldeb yn gyson uchel
- Addysgu ac asesu'n dda ar draws yr ysgol
- Profiadau dysgu yn ennyn diddordeb yr holl ddisgyblion
- Yr ysgol yn gymuned gynhwysol sy'n cymryd gofal mawr o les a diogelwch pob disgybl

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ac mae wedi sefydlu gweithdrefnau pwrpasol ar gyfer codi safonau a gwella'r ddarpariaeth
- Aelodau staff yn cyflawni eu rolau'n drylwyr ac yn cydweithio'n agos fel tîm
- Llywodraethwyr â gwybodaeth drylwyr am safonau cyflawniad disgyblion
- Prosesau hunanarfarnu trylwyr gan ddefnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol
- Ystod o bartneriaethau yn cael effaith gadarnhaol ar safonau ac yn ymestyn profiadau dysgu disgyblion yn sylweddol
- Trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn arwain at welliannau mewn addysgu a dysgu
- Yr ysgol yn rhoi gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Darparu gwaith mwy ymestynol i ddisgyblion mwy abl a thalentog

A2 Gwella ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

O ystyried eu man cychwyn ar fynediad i'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w profiadau dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn caffael gwybodaeth a medrau newydd yn effeithiol ac yn cymhwyso'r rhain i sefyllfaoedd newydd. Er enghraifft, wrth i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ddatrys problemau ymarferol yn yr ardaloedd dysgu neu wrth i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gynnal ymchwiliadau gwyddonol.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg.

Gyda chynhaliaeth oedolion, mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyfathrebu'n Gymraeg yn briodol ar lafar ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa pan fyddant yn trafod eu gwaith. Erbyn diwedd y cyfnod, mae bron pob disgybl yn sgwrsio'n hyderus gydag oedolion yn y ddwy iaith. Mae llawer yn troi o'u gwirfodd at lyfrau darllen gyda'r rhan fwyaf ym Mlwyddyn 2 yn darllen yn ystyrlon ac ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae'r darllenwyr mwyaf hyderus yn mynegi barn am eu hoff gymeriadau a digwyddiadau gan arddangos dealltwriaeth dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n briodol i ystod o ddibenion a chyda chywirdeb cynyddol.

Wrth drafod cynnwys llyfrau neu wrth ddefnyddio geirfa a thermau arbenigol pynciau, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn esbonio gwybodaeth ac yn mynegi eu syniadau'n eglur. Mae llawer yn darllen testunau estynedig yn annibynnol ac yn defnyddio ystod dda o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau. Mae bron pob un yn cymhwyso eu medrau darllen yn effeithiol ar gyfer cywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau megis llyfrau a gwefannau. Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n hyderus i ystod eang o ddibenion, er enghraifft wrth ysgrifennu barddoniaeth am anifeiliaid prin yn Affrica.

Ychydig o ddisgyblion ar draws yr ysgol sy'n cynhyrchu llawysgrifen ddestlus ac yn cyflwyno'u gwaith yn daclus.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg ac wrth weithio yn yr ardaloedd dysgu. Mae'r disgyblion hŷn yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Maent yn dehongli gwybodaeth wedi'i chyflwyno mewn graffiau neu ddiagramau gwahanol gyda chywirdeb gan ddefnyddio geirfa fathemategol yn gywir i drafod eu gwaith. Wrth iddynt ymwneud â gweithgareddau ymchwiliol, er enghraifft darganfod hoff deganau disgyblion y dosbarth, gwnânt ddefnydd effeithiol o dablau a graffiau ar gyfer cofnodi eu canlyniadau.

Erbyn cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y ddisgyblion yn mynd i'r afael â thasgau rhifedd ymarferol yn systematig. Fodd bynnag, er bod bron pob disgybl yn ymdrin â gwaith rhif yn hyderus, mae llawer ohonynt yn ansicr wrth wneud cyfrifiadau yn y pen. Erbyn Blynyddoedd 5 a 6, mae bron pob disgybl yn ymdrin â rhifau saith digid a chanrannau'n hyderus ac yn defnyddio nifer o strategaethau ar gyfer gwirio eu hatebion. Mae disgyblion hŷn y cyfnod allweddol yn casglu data o nifer o ffynonellau ac yn ei gyflwyno'n glir ar ffurf tablau a graffiau, er enghraifft wrth iddynt ymwneud â thasgau ymchwiliol fel cymharu hinsawdd Botswana a Chymru

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gan yr ysgol yn aml. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol. Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill tebyg, roedd cyfran disgyblion y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd deilliant 5 yn y tair blynedd diwethaf, gan amlaf, yn y 25% uchaf mewn mathemateg a'r 50% is mewn llythrennedd. Yn ystod dwy o'r tair blynedd, roedd y gyfran a gyflawnodd ar y deilliant 6 yn y 25% isaf yn y ddau faes.

Yn ystod dwy o'r pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar lefel 4 mewn Cymraeg a gwyddoniaeth wedi bod yn y 50% uwch o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Dros yr un cyfnod, roedd perfformiad mewn Saesneg a mathemateg, gan amlaf, yn y 25% isaf o ysgolion tebyg. Yn amlach na pheidio, roedd perfformiad ar lefel 5 yn y 25% isaf yn y pedwar pwnc.

Ar y cyfan, mae merched a bechgyn yn cyflawni cystal â'i gilydd. Nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng perfformiad y rheini sy'n gymwys i dderbyn cinio di-dâl a gweddill y disgyblion.

**Lles: Da**

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn rhydd oddi wrth unrhyw gamdriniaeth gorfforol neu eiriol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gael bwydydd iachus ac i ddatblygu ffitrwydd.

Yn ddiwahân, dywed disgyblion eu bod yn mwynhau dod i'r ysgol. Mae bron pob un yn llawn cymhelliant, maent yn foesgar a chwrtais gyda phawb o'u cwmpas ac yn ymddwyn yn gyfrifol. Mae disgyblion o bob oedran yn cydweithio'n gyfeillgar mewn grwpiau ac, wrth iddynt symud o gwmpas yn yr ysgol neu chwarae ar y buarth, maent yn ofalus o ddisgyblion eraill.

Wrth iddynt aeddfedu, mae gan y mwyafrif o ddisgyblion syniad priodol o'u cryfderau a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella**.** Erbyn cyfnod allweddol 2, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u targedau personol ac maent yn gwybod pan fyddant wedi cyflawni'r targedau hyn.

Mae'r disgyblion yn manteisio yn dda ar gyfleoedd cyson i leisio barn ac i wneud penderfyniadau ynghylch eu dysgu. Maent yn ymateb yn frwdfrydig i'r cyfleoedd gwerthfawr a gânt i ysgwyddo cyfrifoldebau, er enghraifft wrth ymgymryd â dyletswyddau 'helpwr heddiw' yn y dosbarth neu wrth ofalu am yr ieir yn y goedlan. Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol ac yn chwarae rôl bwysig ym mywyd cymdeithasol yr ysgol.

Mae arferion fel cynnal ffair yn neuadd yr eglwys a chydweithio gyda chymdeithas dai lleol i blannu a dyfrio blodau yn y pentref, yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad medrau cymdeithasol disgyblion ac yn cryfhau eu hymglymiad i'w cymuned.

Mae cyfraddau presenoldeb yn gyson uchel, ac wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brydlon wrth gyrraedd yr ysgol yn y bore.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Trwy gynllunio trylwyr, mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb yr holl ddisgyblion. Mae'r cynllunio'n ymateb yn llawn i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r cynlluniau gwaith yn rhoi sylw dyledus i ddatblygu medrau ar draws y cwricwlwm ac mae'r cynllunio tymor byr yn ddigon manwl i sicrhau dilyniant yn y dysgu o ddydd i ddydd. Mae staff yn gwerthuso'r cynlluniau wythnosol yn rheolaidd er mwyn cynllunio'n fwy bwriadus ar gyfer y camau nesaf yn dysgu'r disgyblion. Er y rhoddir lle amlwg i ddiddordebau'r disgyblion wrth gynllunio'r cwricwlwm, nid yw'r profiadau dysgu bob amser yn cynnig digon o her i'r disgyblion mwy abl a thalentog.

Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol wedi ei ymgorffori'n gadarn yng nghynlluniau gwaith pob dosbarth. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn effeithiol ac yn cynorthwyo'r rhan fwyaf o'r disgyblion i wneud cynnydd da o'u man cychwyn. Trwy astudio gwaith artisitiaid Cymreig, mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am nodweddion diwylliannol a hanesyddol Cymru.

Trwy waith y cyngor ysgol, y pwyllgor Eco a phrofiadau'r cwricwlwm, mae'r ysgol yn sicrhau bod gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd arbed ynni, ailgylchu a lleihau gwastraff.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'r byd ehangach. Mae'r cysytiadau a grewyd gyda gwledydd eraill fel Gwlad Pwyl, Hwngari a Thwrci yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at gynyddu dealltwriaeth disgyblion o'u rôl fel dinasyddion byd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon a chymorthyddion dysgu yn modelu iaith gadarn i ddisgyblion. Maent yn cydweithio'n effeithiol er mwyn darparu profiadau dysgu ysgogol ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn yr iaith Gymraeg. Gwneir defnydd effeithiol o amrediad o strategaethau addysgu, gan gynnwys gwaith grŵp, a chaiff gwersi eu cyflwyno mewn ffordd fywiog a brwdfrydig. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau a ddarperir yn cynnig cyfleoedd da i lawer o ddisgyblion ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac i ddatblygu eu medrau dysgu'n effeithiol. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o'r gwersi, mae diffyg her yn y tasgau a ddarperir ar gyfer disgyblion uwch eu gallu. Trwy ymyrraeth bwrpasol a holi medrus, llwydda'r staff i herio llawer o'r disgyblion i gyflawni'n dda ac i sicrhau eu hymglymiad i'r gwaith dan sylw.

Mae sylwadau treiddgar athrawon ar waith ysgrifenedig disgyblion yn galluogi pob unigolyn i wybod beth y maent wedi'i gyflawni a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae trefn gadarn wedi'i sefydlu drwy'r ysgol ar gyfer gosod targedau unigol i ddisgyblion. Mae'r arfer yng nghyfnod allweddol 2 o gynnwys disgyblion yn y broses yn grymuso eu medrau dysgu ac yn rhoi mwy o gyfrifoldeb iddynt dros eu dysgu.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer asesu, cofnodi ac olrhain cynnydd pob disgybl wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae hyn yn galluogi staff i adnabod unrhyw dangyflawni yn fuan ac i ddarparu cynhaliaeth ychwanegol i ddisgyblion unigol yn ôl yr angen.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni o ansawdd da ac yn rhoi gwybodaeth fuddiol iddynt am gynnydd a lles eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a theuluol ei naws lle mae oedolion a disgyblion yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd. Llwydda'r ysgol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Mae sesiynau addoli ar y cyd, ac ystod o weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol, yn cyfrannu'n effeithiol i'r meysydd hyn.

Mae trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach a chyfleoedd addas i hybu ffitrwydd disgyblion.

Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o asiantaethau arbenigol sy'n cynnwys therapyddion iaith, seicolegwyr addysg a'r gwasanaethau iechyd, er mwyn sicrhau bod disgyblion yn derbyn cefnogaeth a chynhaliaeth briodol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn hynod effeithiol. Mae'r ysgol yn sicrhau lefel uchel o gynhaliaeth ar gyfer y disgyblion hyn, gan ddefnyddio system drwyadl ar gyfer targedu disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r rhaglenni ymyrraeth yn bwrpasol ac yn ymateb i anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r cynlluniau addysg unigol a ddarperir ar gyfer pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn fanwl ac yn cynnwys targedau clir. Mae'r rhieni yn cael eu cynnwys yn y broses o lunio ac adolygu'r cynlluniau.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n cymryd gofal mawr o les a diogelwch pob disgybl. Mae'r staff yn sicrhau bod pob disgybl yn cael ei drin yn deg a'u bod yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm a holl weithgareddau'r ysgol. Mae perthynas waith dda rhwng yr holl staff a'r disgyblion, ac mae'r disgyblion yn falch o'u hysgol. Mae arddangosfeydd lliwgar o amgylch yr adeilad yn dathlu gwerthoedd craidd yr ysgol, ac mae'r disgyblion yn eu deall ac yn ymateb yn dda iddynt.

Mae adeilad a thir yr ysgol o ansawdd da ac yn cael eu cynnal a chadw i safon briodol. Gwneir defnydd llawn o'r ystafelloedd a'r ardaloedd tu allan, er enghraifft y goedlan a'r ardal chwarae, er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Mae'r arddangosfeydd ar furiau'r ystafelloedd yn dathlu gwaith a phrofiadau'r disgyblion ac yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at greu amgylchedd dysgu ddiddorol.

Mae ystod addas o adnoddau, gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, sydd o ansawdd da ac sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gweledigaeth glir gan y pennaeth ar gyfer datblygu a phennu cyfeiriad strategol pendant i waith yr ysgol. Mewn amser byr, mae wedi llwyddo i rannu ei gweledigaeth yn llwyddiannus iawn gyda'r staff, rhieni a'r llywodraethwyr. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ac mae wedi sefydlu gweithdrefnau pwrpasol a chlir i'r holl staff ar gyfer codi safonau a gwella'r ddarpariaeth. Mae hyn wedi creu ysbryd tîm cryf yn yr ysgol.

Mae nodau datblygu yr ysgol yn cyd-fynd yn glir â blaenoriaethau cenedlaethol, yn enwedig y rheini sy'n gysylltiedig â chodi safonau llythrennedd a rhifedd.

Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n drylwyr. Maent yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod cyrhaeddiad disgyblion a chynllunio ar y cyd. O dan arweiniad y pennaeth, maent yn barod iawn i rannu arbenigeddau ac arferion da ymysg ei gilydd ac i roi cynnig ar fentrau newydd.

Caiff yr ysgol gefnogaeth dda gan lywodraethwyr sydd â gwybodaeth drylwyr am safonau cyflawniad disgyblion. Maent yn barod i gefnogi'r ysgol fel ffrind beirniadol ac i ddwyn yr ysgol i gyfrif ar sail yr wybodaeth y maent yn ei derbyn. Mae ganddynt wybodaeth drylwyr am y ddarpariaeth yn nosbarthiadau'r ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Yn ddiweddar, mae arweinwyr yr ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau cadarn i arfarnu ei heffeithiolrwydd. Mae'r broses hunanarfarnu hon yn drylwyr. Mae'r pennaeth yn casglu ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol, sy'n cyfrannu'n sylweddol at y broses hunanarfarnu trwy ofyn am farn disgyblion a'u rhieni'n rheolaidd. Mae arweinwyr yn gwneud dadansoddiad manwl o ddata perfformiad disgyblion, arfarniadau monitro trylwyr o safonau ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae hyn yn creu darlun a dealltwriaeth gywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae arfer yr ysgol o dargedu a chanolbwyntio'n benodol ar anghenion disgyblion o gefndiroedd dan anfantais, yn galluogi bron pob unigolyn i gyflawni i'w lawn botensial.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu o ansawdd priodol ac yn adnabod cryfderau a meysydd datblygu'n dda. Mae gan bob un o'r staff eu rhan mewn rhoi'r strategaethau ar waith ac maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn cysylltu'n glir â'r broses hunanarfarnu ac yn cynnwys blaenoriaethau sydd wedi eu hamserlennu'n effeithiol ac yn diffinio'n glir ran pob aelod staff wrth ei weithredu. Fodd bynnag, er bod y meini prawf llwyddiant yn ffocysu'n glir ar ddeilliannau disgyblion, nid ydynt yn ddigon meintiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cynhyrchiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau ac yn ymestyn profiadau dysgu disgyblion yn sylweddol.

Mae'r berthynas gref ac effeithiol sydd rhwng yr ysgol a'r cartref yn sicrhau bod rhieni yn wybodus iawn am gynnwys y cwricwlwm a'u bod hefyd yn ymwybodol o flaenoriaethau gwelliant cyfredol yr ysgol. Caiff rhieni wybodaeth fanwl am gynnydd a thargedau eu plentyn ynghyd â chyngor ynghylch sut y gallant eu helpu i wella.

Mae'r berthynas effeithiol sydd rhwng yr ysgol ac amrywiaeth o asiantaethau a mudiadau gwirfoddol yn galluogi staff i gyflwyno rhaglenni cysylltiedig sy'n gwella deilliannau a lles disgyblion. Enghraifft nodedig o hyn yw'r cydweithio clòs sydd rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin sydd wedi'i leoli yn neuadd yr ysgol. Mae arfer athrawes y Cyfnod Sylfaen o gefnogi datblygiad llythrennedd a rhifedd plant y cylch unwaith yr wythnos, yn paratoi'r plant yn dda ar gyfer symud i'r dosbarth derbyn. Mae trefniadau trosglwyddo effeithiol gyda'r ysgol uwchradd leol yn sicrhau bod dilyniant a pharhad ym mhrofiadau dysgu disgyblion wrth iddynt gymryd y cam nesaf yn eu dysgu.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n bwrpasol ag ysgol gyfagos i safoni a chymedroli gwaith er mwyn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae partneriaeth weithredol rhwng yr ysgol a'r gymuned leol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn sylweddol; er enghraifft, wrth iddynt gydweithio gydag aelodau'r gymuned i greu gardd wenyn yn y pentref.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae adnoddau'r ysgol yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mewn gwersi ac yn ystod sesiynau penodol fel darllen grŵp, gwna'r ysgol ddefnydd bwriadus o staff cynorthwyol i roi cefnogaeth werthfawr i unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cadw golwg fanwl ar y sefyllfa gyllidol ac mae gwariant yn cysylltu'n dda â thargedau a chynllun datblygu'r ysgol.

Gwna'r athrawon ddefnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu i weithio ar y cyd, ac mae'r trefniadau yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae arfer y pennaeth yn ystod y cyfnodau hyn o addysgu pob dosbarth yn ei dro, yn ei alluogi i gael trosolwg da o safonau ar draws yr ysgol.

Mae'r cymorthyddion a'r athrawon yn gweithio'n dda fel tîm i gyflwyno eu cynlluniau sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion, yn enwedig y rhai is eu gallu.

Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad proffesiynol yr holl staff trwy raglen gynhwysfawr o hyfforddiant.  Mae'r rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau darllen a rhifedd.

Mae effaith adnoddau dysgu yn cael ei harfarnu'n ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion ac yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu medrau'r disgyblion.  Mae adnoddau newydd i gefnogi rhifedd yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad mathemategol disgyblion.

Mae grant amddifadedd disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol ar gyfer codi safonau rhifedd a llythrennedd grwpiau penodol o ddisgyblion.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6632127 - Ysgol Henllan**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 68 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 24.8 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 8 | 7 | 7 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 75.0 | 85.7 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 7 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 75.0 | 85.7 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 0.0 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 7 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 0.0 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 7 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 37.5 | 57.1 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6632127 - Ysgol Henllan**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 68 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 24.8 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 7 | * | * | 12 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 71.4 | * | * | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | * | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | * | * | 12 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 71.4 | * | * | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | * | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.6 | * | * | 16.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | * | * | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | * | * | 12 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 42.9 | * | * | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | * | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | * | * | 16.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | * | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | * | * | 12 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 71.4 | * | * | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | * | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 14.3 | * | * | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | * | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | * | * | 12 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | * | * | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | * | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.6 | * | * | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | * | * | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg cynradd (pob disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 26 | 26<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 26 | 26<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 26 | 26<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 26 | 26<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 26 | 26<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 26 | 26<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 26 | 26<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 26 | 26<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 26 | 26<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 26 | 24<br>92%<br>95% | 2<br>8%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 26 | 23<br>88%<br>77% | 3<br>12%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 26 | 24<br>92%<br>84% | 2<br>8%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 15 | 12 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 15 | 12 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 15 | 12 | 3 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 15 | 12 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 15 | 5 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 33% | 67% | 0% | 0% | | |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 15 | 11 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 73% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 15 | 11 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 15 | 10 | 4 | 0 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 67% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 15 | 11 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 73% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 15 | 9 | 5 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 60% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 15 | 8 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 53% | 47% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 14 | 6 | 7 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 43% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 15 | 11 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 15 | 12 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 15 | 7 | 7 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 47% | 47% | 7% | 0% | | |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 15 | 9 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 60% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 12 | 4 | 6 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 33% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 43% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 15 | 9 | 5 | 1 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 60% | 33% | 7% | 0% | | |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 15 | 10 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| William Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Bates | Arolygydd Tîm |
| David Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Rhian Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mair Evans | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.